

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 24AIN O FEDI 2018 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Hywel Davies, Arwel Davies, Geraint Jones, Bari Evans, Stanley Williams, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iwan Jones, Jill Evans a Falmai Evans.

2. DATGAN DIDDORDEB.

Dim.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 30ain o Orffennaf 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn gadachau fod y mynediad newydd heb ganiatâd ar gae amaethyddol i'r ffordd Ystrad i Brion eisiau caniatâd cais cynllunio ac mae'r Adran Cynllunio wedi rhoi gorchymyn i'r perchennog am gais cynllunio i'r safle.

B. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar arogl o'r carthffosydd ar sŵn o'r safle yn hwyr yn y nos ar safle Maes Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron.

C. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar faterion ffyrdd a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

D. Derbyniwyd adroddiad cyn aelod y Cyngor, Iona Edwards-Jones, yn cadarnhau fod Huw Thomas o'r cwmni Scottish Power yn cynllunio'r gwaith sydd angen ar safle maes parcio Ysgol Pant Pastynog ac mae gan Dafydd Rhys, Pennaeth Ysgol Pant Pastynog, gyda'r manylion diweddaraf. Cytunodd y Clerc i gysylltu gydag Dafydd Rhys i ofyn am yr adroddiad diweddaraf ynglŷn ar faes parcio.

5. WEFAN Y CYNGOR.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau i dderbyn cynnig y Cynghorydd Bari Evans i roi gwybodaeth y Cyngor ar y Wefan.

6. CYFIEITHU DOGFENNAU'R CYNGOR.

Penderfynwyd yr aelodau rhoi agenda ar gofnodion dwyieithog ar y wefan y Cyngor a chytunodd y Clerc i'r gwaith ychwanegol a phenderfynwyd yr aelodau i godiad cyflog y Clerc o £25.00 y mis o'r 1af Hydref 2018.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £15,911.00.

B. Derbyniwyd ail ran o'r 201819 trethi'r Cyngor - £3,984.00.

C. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gefnogaeth arian y Cyngor i Gapel Saron.

D. Taliadau:-

1. Capel-y-Pentre, Llanrhaeadr am bedair cyfarfod Pwyllgor Apêl Urdd 2020 - £80.00.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2018 - £420.00.

3. HMRC treth y cyflog am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2018 - £105.00.

#### 8. PENDERFYNIADAU CEISIADAU CYNLLUNIO (CYNGOR SIR DDINBYCH).

A. Gwrthod cais amrywio amod rhif 7 (adfer Cae'r Mynydd Gogledd) o rif cod caniatâd cynllunio 23/2016/1218 i ganiatáu 12 mis ychwanegol i gydymffurfio o'r amod yng Nghaer Mynydd Caravan Park yn Saron.

B. Caniatawyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Newid defnydd tir trwy leoli 2 rif tai crwn fframio pren ar gyfer llety gwyliau ar dir yn The Laundry, Llanrhaeadr Hall, Llanrhaeadr.
2. Codi estyniadau i anedd yn Hafoty Du, Saron.

#### 9. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd "Adroddiad Cynigion Drafft" o'r Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ddinbych gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Ni does yna unrhyw newidiadau i Ward Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch ar Gyngor Sir Ddinbych.

B. Derbyniwyd manylion "Gweithdy Cynllunio Cymunedol" oddi wrth Swyddog Arweiniol dros Ddatblygu Seilwaith Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych ar fore Gwener 26ain o Hydref 2018 yn Neuad y Dref, Dinbych rhwng 9.30 y.b a 12.30 y.p.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Joseph Welch ar y canlynol:-

A: Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ail penderfynu beidio â chwtdogi'r gwasanaeth "School Beat" o'r Ysgolion yn Ogledd Cymru.

B. Mae'r datblygiad cynllunio ar dir wrth Llys Gwilym yn Llanrhaeadr ar fin cychwyn.

C. Mae'r Adran 106 ar gais cynllunio safle Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr wedi ei arwyddo bellach.

#### 11. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd o Gyngor Sir Ddinbych at yr arwyddion canlynol sydd eisiau eu hail osod:-

1. Arwydd Ysgol Pant Pastynog, Prion wrth Fronallt.
2. Arwydd groesffordd Nant-y-Ci yn Saron.

B. Penderfynwyd gwahodd Tim Towers o'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych i'r cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod materion ffyrdd y gymuned.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 22ain o Hydref 2018 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.